

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion o ran Tystiolaeth a Data

Rhaglen Gydweithredu Iwerddon-Cymru 2014 - 2020

Fersiwn: 1.1

Dyddiad: Ebrill 2016

Cynnwys

| | |
|--|----|
| | 0 |
| Geirfa | 2 |
| Echelin Flaenoriaeth 1 – Arloesedd Trawsffiniol | 6 |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth (heb fod yn ariannol) | 8 |
| Mwy o swyddi mewn mentrau a gynorthwyir | 9 |
| Nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gynorthwyir ... | 10 |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb â chymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu brosiectau ymchwil a datblygu | 12 |
| Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad..... | 13 |
| Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch newydd i gwmni | 14 |
| Nifer y mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol..... | 15 |
| Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol..... | 16 |
| Rhwydweithiau arloesedd trawsffiniol newydd neu rai a gyfoethogwyd | 17 |
| Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd | 18 |
| Echelin Flaenoriaeth 2 – Addasu Môr yr Iwerydd a Chymunedau Arfordirol i'r Newid yn yr Hinsawdd | 19 |
| Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol..... | 20 |
| Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd | 21 |
| Nifer y mentrau codi ymwybyddiaeth newydd sydd wedi'u targedu at gymunedau arfordirol | 22 |
| Nifer y sefydliadau sy'n cydweithredu i wella'r amgylchedd morol ac arfordirol | 23 |
| Echelin Flaenoriaeth 3 – Treftadaeth ac Adnoddau Diwylliannol a Naturiol ... | 24 |
| Mwy o swyddi mewn mentrau a gynorthwyir | 25 |
| Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd | 26 |
| Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy'n hyrwyddo asedau diwylliannol, naturiol neu dreftadol | 27 |
| Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn gwaith cydweithredol trawsffiniol sy'n ymwneud â thwristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadol | 28 |
| Atodiad 1 – Cronfa Ddata Mentrau | 29 |

Geirfa¹

| | |
|---------------------|---|
| Arloesi Proses | <p>Ystyr 'arloesi proses' yw gweithredu dull cynhyrchu neu gyflenwi newydd neu ddull o'r fath sydd wedi'i wella'n sylweddol (gan gynnwys newidiadau sylweddol o ran technegau, offer neu feddalwedd), heb gynnwys newidiadau neu welliannau bach, cynnydd mewn cynhyrchiad neu wasanaeth trwy ychwanegu systemau gweithgynhyrchu neu logistaidd sy'n debyg iawn i'r rheini sy'n cael eu defnyddio eisoes, rhoi'r gorau i ddefnyddio proses, amnewid neu ehangu cyfalaf syml, newidiadau sy'n dod yn sgil newidiadau ym mhrisiau ffactorau yn unig, addasiadau, lleoleiddio, newidiadau rheolaidd, tymhorol a chylchol eraill a masnachu cynnyrch newydd neu gynnrych sydd wedi gwella'n sylweddol.</p> |
| Arloesi Sefydliadol | <p>Y weithred o roi dull sefydliadol newydd ar waith i gyflawni arferion busnes, trefniadaeth gweithle neu gysylltiadau allanol, heb gynnwys newidiadau sy'n seiliedig ar ddulliau sefydliadol sydd eisoes yn cael eu defnyddio i wneud newidiadau i'r strategaeth reoli, uno a chaffael, rhoi'r gorau i ddefnyddio proses, amnewid neu ehangu cyfalaf syml, newidiadau sy'n dod yn sgil newidiadau ym mhrisiau ffactorau yn unig, addasiadau, lleoleiddio, newidiadau rheolaidd, tymhorol a chylchol eraill a masnachu cynnyrch newydd neu gynnrych sydd wedi gwella'n sylweddol.</p> |
| BBaCh | <p>Categori o fusnesau micro, bach a chanolig hunanreolaethol sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol o ddim mwy na 50 miliwn o ewros, a/neu gyfanswm mantolen flynyddol ddim mwy na 43 miliwn o ewros.</p> <p>Rydych yn hunanreolaethol:</p> <ul style="list-style-type: none">– os ydych yn gwbl annibynnol, h.y. nid ydych yn chwarae unrhyw ran mewn mentrau eraill ac nid oes unrhyw fenter yn cymryd rhan yn eich menter chi.– os ydych yn dal llai na 25% o'r cyfalaf neu'r hawliau pleidleisio (pa un bynnag yw'r uchaf) mewn un fenter arall neu ragor a/neu nad oes gan rywun o'r tu allan gyfranddaliad o 25% neu ragor o'r cyfalaf neu'r hawliau pleidleisio (pa un bynnag yw'r uchaf) yn eich menter. <p>Os ydych yn hunanreolaethol, mae'n golygu nad ydych yn bartner nac yn gysylltiedig â menter arall (gweler Erthygl 3.1, t.35).²</p> |

¹ Daw'r ddiffiniadau o'r UE 1303/2013 a C(2014)3282 a Chysyniadau ac Argymhellion y CE, Mawrth 2014

² http://ec.europa.eu/enterprise/policies/sme/facts-figures-analysis/sme-definition/index_en.htm Fel y diffiniwyd yn 2003/361/EC (1);

| | |
|-------------------------------|---|
| Cydwethredu | Cydwethredu rhwng o leiaf dau barti annibynnol i gyfnewid gwybodaeth neu dechnoleg, neu i gyflawni nod cyffredin, sy'n seiliedig ar rannu'r gwaith a lle bydd y partion yn diffinio cwrmpas y prosiect cydwethredol ac yn cyfrannu at ei weithredu ar y cyd ac yn rhannu ei risgiau, yn ogystal â'i ganlyniadau. Gallai un o'r partion neu nifer ohonynt dalu am gostau llawn y prosiect a, chan hynny, leihau'r risgiau ariannol i'r partion eraill. Nid yw ymchwil a gaiff ei gontractio na darpariaeth gwasanaethau ymchwil yn cael eu hystyried yn fathau o gydweithredu. |
| Cyfwerth ag amser llawn (FTE) | Dylid nodi swyddi fel rhai Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE), sy'n seiliedig ar wythnos 30 awr. Er enghraifft, os yw swydd yn ymwneud â gweithio 30 awr neu ragor yr wythnos, yna mae'n 1 FTE. Os nad yw swydd yn amser llawn, yna bydd angen rhannu'r oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos â 30 er mwyn cael cyfran yr FTE a gynrychiolir. Er enghraifft, byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 FTE. |
| Datblygu arbrofol | Caffael, cyfuno, llunio a defnyddio gwybodaeth a sgiliau gwyddonol, technolegol a busnes presennol a rhai perthnasol eraill, gyda'r nod o ddatblygu cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd neu well. Gallai hyn hefyd gynnwys, er enghraifft, weithgareddau sy'n anelu at ddiffinio, cynllunio a chofnodi cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd yn gysyniadol. Gall datblygu arbrofol gynnwys prototeipio, arddangos, treialu, profi a dilysu cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd neu well mewn amgylcheddau sy'n cynrychioli sefyllfaoedd gweithredu gwirioneddol sydd â'r prif nod o wneud gwelliannau technegol pellach i gynnyrch, prosesau neu wasanaethau nad ydynt wedi'u gosod yn sylweddol. Gall hyn gynnwys datblygu prototeip neu gynllun peilot y gellir ei ddefnyddio yn y byd masnachol a hwn, o angenrheidrwydd, yw'r cynnyrch masnachol terfynol sy'n rhy ddrud i'w gynhyrchu i gael ei ddefnyddio at ddibenion arddangos a dilysu yn unig. Nid yw datblygu arbrofol yn cynnwys newidiadau arferol neu gyfnodol a wneir i gynnyrch, llinellau cynhyrchu, prosesau gweithgynhyrchu a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes na gweithrediadau eraill sydd ar droed, hyd yn oed os allai'r newidiadau hynny gyflwyno gwelliannau. |
| Gwasanaethau Cynghori Arloesi | Ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant ym meysydd trosglwyddo gwybodaeth, caffael, diogelu a defnyddio asedau anghyffwrddadwy, a'r defnydd o'r safonau a'r rheoliadau y maen nhw wedi'u seilio arnynt. |
| Gwasanaethau Cymorth Arloesi | Y ddarpariaeth o swyddfeydd, banciau data, llyfrgelloedd, ymchwil i'r farchnad, labordai, labelu, profi ac ardystio ansawdd at ddibenion datblygu cynnyrch, prosesau neu wasanaethau mwy effeithiol. |
| Gweithrediad | Prosiect, contract, gweithred neu grŵp o brosiectau a ddewisir gan awdurdodau rheoli'r rhaglenni dan sylw, neu rai y maen |

| | |
|-----------------------------|--|
| | nhw'n gyfrifol amdanynt, sy'n cyfrannu at amcanion blaenoriaeth neu flaenoriaethau; yng nghyd-destun offerynnau ariannol, gweithred yw'r cyfraniadau ariannol gan raglen i offerynnau ariannol a'r cymorth ariannol dilynol a ddarperir gan yr offerynnau ariannol hynny. |
| Menter Gymdeithasol | Menter sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, lle caiff unrhyw arian dros ben ei ail-fuddsoddi yn y fenter neu'r gymuned at y diben hwnnw gan mwyaf, yn hytrach na chael ei lywio gan yr angen i wneud cymaint â phosibl o elw i randdeiliaid a pherchnogion. |
| Prosiect Ymchwil a Datblygu | Gweithrediad sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n ymestyn dros un categori ymchwil a datblygu neu ragor a ddiffinnir yn y fframwaith hwn, ac sydd â'r nod o gyflawni tasg na ellir ei rhannu o natur economaidd, wyddonol neu dechnegol manwl ac sydd â nodau clir a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Gall prosiect Ymchwil a Datblygu gynnwys nifer o becynnau gwaith, gweithgareddau neu wasanaethau, ac mae'n cynnwys amcanion clir, gweithgareddau sydd angen eu gwneud i gyflawni'r amcanion hynny (gan gynnwys eu cost ddisgwyliedig), a thargedau cadarn i nodi canlyniadau'r gweithgareddau hynny a'u cymharu â'r amcanion perthnasol. Pan na ellir gwahanu dau neu ragor o brosiectau Ymchwil a Datblygu yn glir, yn enwedig pan na fydd ganddynt debygolrwydd annibynnol o lwyddiant technolegol, cânt eu hystyried fel un prosiect. |
| Rhywedd | Mae'r term "rhyw" yn cyfeirio at y nodweddion biolegol a ffisiolegol sy'n diffinio dynion a menywod tra bod y term "rhywedd" yn cyfeirio at gynrychiolaeth gymdeithasol nodweddion gwryw a benyw. At ddibenion monitro ESF, argymhellir: <ul style="list-style-type: none"> - mewn achosion pan gaiff gwybodaeth ei chasglu'n uniongyrchol oddi wrth gyfranogwyr, dylai hunaniaeth rhywedd cyfranogwyr gael ei chofnodi (h.y. y rhyw/rhywedd y mae'r cyfranogwr yn dymuno cael ei gysylltu ag ef); - mewn achosion pan fydd gwybodaeth yn cael ei chymryd o gofrestrï, gellir defnyddio'r cofnodion sy'n bodoli eisoes heb wneud ymholiadau pellach. |
| Seilwaith Ymchwil | Cyfleusterau, adnoddau a gwasanaethau perthnasol a ddefnyddir gan y gymuned wyddonol i wneud gwaith ymchwil yn eu meysydd perthnasol. Mae'n cynnwys cyfarpar gwyddonol neu set o offerynnau, adnoddau sy'n seiliedig ar wybodaeth megis casgliadau, archifau neu wybodaeth wyddonol strwythuredig, gan alluogi seilweithiau sy'n seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu megis grid, cyfrifiadura, meddalwedd a chyfathrebu neu unrhyw endid arall o natur unigryw sy'n hanfodol i wneud gwaith ymchwil. Gall seilweithiau o'r fath fod 'ar un safle' neu 'wedi'u dosbarthu' (rhwydwaith cyfundrefnol o adnoddau) |
| Trosglwyddo Gwybodaeth | Proses sydd â'r nod o gael, casglu a rhannu gwybodaeth benodol a dealedig, gan gynnwys sgiliau a chymhwysedd |

| | |
|---------------------|---|
| | <p>mewn gweithgareddau economaidd ac aneconomaidd megis gwaith ymchwil cydweithredol, ymgynghoriaeth, trwyddedu, creu deilliedig, cyhoeddi a symudedd ymchwilwyr a phersonél eraill sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny. Ar wahân i wybodaeth wyddonol a thechnolegol, mae'n cynnwys mathau eraill o wybodaeth megis gwybodaeth am ddefnyddio a chynnwys safonau a rheoliadau ac am amgylcheddau gweithredu go iawn a dulliau gweithredu arloesi sefydliadol, yn ogystal â rheoli gwybodaeth sy'n ymwneud ag adnabod, caffael, diogelu, amddiffyn a defnyddio asedau anghyffyrddadwy.</p> |
| Ymchwil Diwydiannol | <p>Ymchwil neu ymchwiliad beirniadol arfaethedig sydd â'r nod o gaffael gwybodaeth a sgiliau ar gyfer datblygu cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd neu ar gyfer gwneud gwelliannau sylweddol i gynnyrch, prosesau neu wasanaethau presennol. Mae'n cynnwys creu cydrannau o systemau cymhleth, a gallai hyn gynnwys adeiladu prototeipiau mewn labordy neu mewn amgylchedd â rhyngwynebau ffug i systemau presennol yn ogystal â llinellau arbrofol pan fydd eu hangen ar gyfer ymchwil diwydiannol ac yn enwedig ar gyfer dilysu technoleg enerig.</p> |
| Ymchwil Gymhwysol | <p>Ystyr 'ymchwil gymhwysol' yw ymchwil diwydiannol, datblygiad arbrofol, neu unrhyw gyfuniad o'r ddau.</p> |
| Ymchwil Sylfaenol | <p>Gwaith arbrofol neu ddamcaniaethol a wneir yn bennaf er mwyn cael gwybodaeth newydd am sylfeini sylfaenol ffenomena a ffeithiau canfyddadwy, heb fwriad i'w gymhwyso na'i ddefnyddio'n uniongyrchol yn y byd masnachol.</p> |

Echelin Flaenoriaeth 1 – Arloesedd Trawsffiniol

Amcan Thematig 1

Cryfhau gwaith ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd.

Blaenoriaeth Fuddsoddi 1b

Hyrwyddo buddsoddiad busnes mewn Ymchwil ac Arloesedd, datblygu cysylltiadau a synergedd rhwng mentrau, canolfannau ymchwil a datblygu a'r sector addysg uwch, yn enwedig o ran hyrwyddo buddsoddiad mewn datblygu cynnyrch a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesedd cymdeithasol, eco-arloesedd, cymwysiadau gwasanaethau cyhoeddus, ysgogi'r galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesedd agored trwy arbenigo craff, a chefnogi gwaith ymchwil technolegol a chymhwysol, llinellau peilot, gweithrediadau dilysu cynnyrch cynnar, galluoedd gweithgynhyrchu uwch a chynhyrchiad cyntaf, yn enwedig mewn technolegau galluogi allweddol ac wrth ymledu technolegau at ddibenion cyffredinol.

Amcan Penodol 1

Cynyddu dwyster y cydweithrediad o ran trosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â sefydliadau a BBaCh, yn unol â blaenoriaethau'r strategaethau arbenigo craff a rennir.

Dangosydd Canlyniadau

Lefelau'r buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu a'r arloesedd a ddaw yn sgil cydweithredu trawsffiniol mewn blaenoriaethau a rennir fel y'u nodwyd yn y strategaethau arbenigo craff.

Allbynnau

| Dangosydd | Uned mesur | Gwerth targed (2023) |
|--|--------------------------------|-----------------------------|
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth (heb fod yn ariannol) | Mentrau | 1200 |
| Mwy o swyddi mewn mentrau a gynorthwyr | Swyddi cyfwerth ag amser llawn | 35 |
| Nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil | Mentrau | 70 |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb â chymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesol neu brosiectau Ymchwil a Datblygu | Ewros | 791,984 |
| Nifer y mentrau a gynorthwyr i'w cyflwyno o'r newydd i gynnyrch y farchnad | Mentrau | 30 |
| Nifer y mentrau a gynorthwyr i'w cyflwyno o'r newydd i gynnyrch y cwmni | Mentrau | 600 |
| Nifer y mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu rynggranbarthol | Mentrau | 50 |
| Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu rynggranbarthol | Sefydliadau | 45 |
| Nifer y rhwydweithiau arloesedd trawsffiniol newydd neu rai a gyfoethogwyd | Rhwydweithiau | 6 |
| Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd | Prosiectau peilot a gyflawnwyd | 3 |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth | Mentrau | 1200 |

Nifer y mentrau sy'n cael cymorth (heb fod yn ariannol)

Nifer y mentrau sy'n cael cymorth nad yw'n ymwneud â throsglwyddo arian yn uniongyrchol. Mae'r dangosydd hwn yn is-set o fentrau sy'n cael cymorth.

Dylid cyfrifo maint y cymorth yn gronol. Mae'r cymorth yn cynnwys gwaith cynghori yn unig ac nid yw'n cynnwys amser teithio.

Lleiafswm o 1 diwrnod (6 awr o weithgarwch) a ddarparwyd trwy ddiagnostig busnes neu gyfwerth sy'n arwain at gynllun gweithredu NEU 2 ddiwrnod (12 awr) o gymorth ymgynghori gweithredol. Dylai diagnostig busnes arwain at gynllun gweithredu.

Dim ond unwaith yn ystod oes gweithrediad y gellir ystyried menter fel un sy'n cael cymorth heb fod yn ariannol.

Gellir gweld enghreifftiau o'r mathau o gamau gweithredu a gynorthwyir yn y Rhaglen Weithredol.

Uned:

Mentrau

Gofynion Data:

Dylai'r data ar bob menter a gynorthwyir gael eu cyflwyno pan fyddant wedi'u cynnwys ar gais. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd y cais yn cael ei wneud. Darperir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylai tystiolaeth o gymhwysedd, gweithgareddau ac allbynnau gael ei nodi yn y Cynllun Busnes. Bydd angen darparu tystiolaeth o statws BBaCh pob menter sy'n cael cymorth.

Gall mentrau a gynorthwyir gan ERDF ddefnyddio'r ffurflen ddatgan enghreifftiol yng nghanllaw defnyddiwr BBaCh y CE i gadarnhau statws BBaCh:

<http://ec.europa.eu/DocsRoom/documents/10109/attachments/1/translations/en/renditions/pdf>

Fel arall, gallai'r dystiolaeth ddod o gyfrifon cwmnïau; cofnodion mewnol cwmnïau; cronfeydd data fel MINT; croesgyfeirio i wybodaeth arall sydd gan gyrff cyhoeddus.

Dylid darparu'r dystiolaeth, ynghyd â manylion gweithgareddau'r fenter a gynorthwyir cyn y cymorth, manylion y gweithgareddau cymorth a wneir a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r allbynnau a'r canlyniadau.

Enghraifft o dystiolaeth briodol fydd taflenni amser wedi'u llofnodi sy'n darparu manylion y gweithgareddau a wnaethpwyd a nifer yr oriau o gymorth.

Mwy o swyddi mewn mentrau a gynorthwyr

Nifer y swyddi gwaith newydd gros mewn mentrau a gynorthwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE).

Mae'r FTE yn seiliedig ar oriau dan contract.

Dangosydd 'cyn ac ar ôl' yw hwn yn ei hanfod sy'n cipio'r rhan o'r cynnydd o ran cyflogaeth o ganlyniad uniongyrchol i gwblhau prosiect (ni chaiff gweithwyr a gyflogwyd i weithredu'r prosiect eu cyfri). Rhaid llenwi'r swyddi (ni chaiff swyddi gwag eu cyfri) a chael cynnydd yng nghyfanswm nifer y swyddi yn y fenter. Os na fydd cyfanswm y swyddi yn y fenter yn cynyddu, y gwerth yw sero - ystyrir hyn yn adliniad yn hytrach na chynnydd. Ni chaiff swyddi a ddiogelwyd ac ati eu cynnwys.

Gros: Heb gyfri o ble y daw deiliad y swydd cyn belled â'i fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynyddu cyfanswm y swyddi yn y sefydliad. Dylid defnyddio'r dangosydd hwn pan fo'n debygol bod y cynnydd wedi dod yn sgil y cymorth.

Parhad: Disgwylir i swyddi fod yn barhaol, h.y. para am gyfnod rhesymol o hir, yn dibynnu ar nodweddion diwydiannol-technolegol; dylai swyddi tymhorol fod yn gylchol.³ Ni chaiff contractau dim oriau eu cynnwys.

Caiff ffigurau mentrau a aeth i'r wal eu cofnodi fel cynnydd sero mewn swyddi.

Amseru: Caiff data eu casglu cyn i'r prosiect ddechrau a hyd at 12 mis ar ôl ymyrraeth.

Uned:

Swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) (oriau dan contract sy'n seiliedig ar wythnos 30 awr)

Gofynion Data:

Rhaid cofnodi rhywedd y deiliad swydd cyntaf.

Bandiau Cyflog (0-€18,999; €19,000 – €23,999; €24,000 - €28,999; €29,000 - €38,999; €39,000 ac uwch.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Gellir rhoi tystiolaeth o gynnydd mewn cyflogaeth drwy hunan-ddatganiad. **Dylid atodi fformat y ffurflen hunan-ddatgan i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso**, ond dylid cynnwys manylion y swyddi sydd wedi'u creu, bod y cynnydd wedi dod yn sgil ymyrraeth ERDF, a dylid cynnwys y band cyflog a rhywedd y deiliad swydd cyntaf. Dylai'r datganiad gael ei lofnodi gan gyfarwyddwr neu uwch-reolwr a dylid nodi ei swydd.

³ Enghraifft fyddai ymchwilydd ôl-ddoethuriaeth a fyddai'n gweithio am isafswm cyfnod o 2 flynedd

Nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr

Mae hyn yn mesur graddfa'r gweithgarwch Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a arweinir gan un neu ragor o sefydliadau ymchwil a ariennir gan yr ERDF.

Nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliad ymchwil mewn **prosiect** Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd.⁴ Dylai pob sefydliad ymchwil a phob menter gael eu cofnodi ar wahân yn erbyn y dangosydd hwn. Pan fydd un fenter yn arwain a'r lleill yn isgcontractwyr a bod yr is-gontractwr yn rhyngweithio â'r sefydliad ymchwil, dylid cynnwys yr is-gontractwr.

Mae o leiaf un fenter ac un sefydliad ymchwil yn cymryd rhan yn y prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd. Gall un neu ragor o'r partïon cydweithredu (sefydliad ymchwil neu fenter) gael cymorth, ond rhaid ei fod yn amodol ar y cydweithredu. Gall y cydweithredu rhwng y partïon fod yn newydd neu fodoli eisoes, ond ni all y prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd fod mewn bodolaeth cyn cael cyllid o'r ERDF. Dylai'r cydweithredu bara dros oes y prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd o leiaf. Bydd y prosiect wedi'i gwblhau pan fydd y prosiect yn dod i ben a phan fydd mesurau cyflawni cadarn yn nodi'r canlyniadau a sut maen nhw'n berthnasol i'r gweithgareddau a'r amcanion.⁵

Dim ond unwaith yn ystod oes **prosiect** Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd y gellir cyfri mentrau. Gellir cofnodi Menter fwy nag unwaith mewn gweithrediad ar yr amod eu bod yn cydweithredu dros oes pob prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd unigol a bod y gweithrediad yn gallu dangos bod gan bob prosiect nodau ac amcanion nodedig a gwahanol. Nid yw tarddiad y fenter o bwys.

Uned:

Mentrau

Gofynion Data:

Dylid hawlio am fentrau ar ôl cwblhau prosiect cydweithredu.

Dylid adrodd ar y canlynol ar gyfer pob prosiect Ymchwil a Datblygu:

Prif sefydliad ymchwil: enw / dynodydd a chyfeiriad

Pob sefydliad ymchwil partner: enw / dynodydd a chyfeiriad

Menter / Mentrau a gynorthwyr (Data Atodiad A)

Menter / Mentrau sy'n cymryd rhan (h.y. nad ydynt o reidrwydd yn cael cymorth) mewn prosiect Ymchwil a Datblygu: enw / dynodydd megis rhif TAW / cyfeiriad / statws BBaCh

⁴ Gweler y Geirfa am ddiffiniad o brosiect a gweithrediad

⁵ Am ragor o fanylion, gweler 2014/C 198/01

f 1.1

Dylai'r data ar bob menter a gynorthwyir gael eu cyflwyno pan fyddant wedi'u cynnwys ar gais. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd y cais yn cael ei wneud. Darperir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylid cynnwys tystiolaeth yn y Cynllun Busnes.

Dylai'r dystiolaeth allu nodi cyd-destun uniongyrchol ac amcanion penodol y cydweithredu arfaethedig, y gweithgareddau a gynhelir a sut y disgwylir i'r rhain gyfrannu at yr allbynnau disgwylidig.

Yn ogystal â data ar y fenter, dylid darparu manylion y sefydliad ymchwil, yn cynnwys gwybodaeth a manylion yr arbenigedd penodol a gynigir o ran y gweithgareddau cydweithredu.

Dylai hwn gael ei gefnogi gan lythyr sy'n cytuno i gydweithredu neu femorandwm o ddealltwriaeth rhwng y partïon, sy'n nodi cyfraniad y fenter a'r sefydliad ymchwil.

Dylid darparu manylion am y gweithgareddau cydweithredu sydd wedi'u cynnal a sut maen nhw'n berthnasol i'r allbynnau a'r canlyniadau ar ôl cwblhau'r prosiect.

Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb â chymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu brosiectau ymchwil a datblygu

Cyfanswm gwerth cyfraniad preifat i arloesedd neu Ymchwil a Datblygu a gynorthwyr, gan gynnwys rhannau anghymwys y prosiect.⁶ Y buddsoddiad yw'r swm cronnus hyd at ddiwedd y prosiect.

Gall y cymorth fod yn ariannol neu'n gymorth heb fod yn ariannol. Gall cymorth ariannol fod yn gymorth grant neu gymorth heb grant (benthyciadau, cymhorthdal â llog, gwarant credyd, cyfalaf menter neu offeryn ariannol arall).

Dylid cynnwys arian cyfatebol a buddsoddiad mewn ffyrdd eraill os nodir hyn mewn cytundeb cydweithredol a'u bod yn archwiliadwy. Mae cyfraniadau mewn ffyrdd eraill yn cynnwys cyfraniadau i'r prosiect gan y cydweithredwyr nad ydynt yn academiaidd (er enghraifft amser staff, defnydd o gyfarpar ac adnoddau eraill, deunyddiau, darparu data ac ati) fel y disgrifiwyd yng nghytundeb cydweithredu'r prosiect.

Uned:

€ - ewro

Gofynion Data:

Arian Cyfatebol O/N

Tystiolaeth Awgrymedig:

Manylion ffurf, natur a swm y buddsoddiad a sut mae wedi ychwanegu at y prosiect. Dylai cyfraniadau mewn ffyrdd eraill fod yn 'benodol i'r contract', h.y. dylai'r partner allanol fod yn ymwybodol o'r gwerthoedd ariannol a ragdybir am eu cyfraniad. Gallai cyfraniadau mewn ffyrdd eraill gynnwys, er enghraifft, amser staff, adnoddau, deunyddiau, darparu data ac ati (HESA, 2014).

Dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Ariannol, y Rheolwr Gweithredol neu'r unigolyn a oedd yn gyfrifol am gymryd rhan yng ngweithgarwch y Gronfa Strwythurol (yn dibynnu ar faint y fenter) lofnodi'r buddsoddiad €. Cofnodion banc yn dangos bod yr arian wedi'i drosglwyddo.

Dylai pwy bynnag sy'n lofnodi fod yn gyfarwydd â'r gweithgaredd a dylai allu mynegi barn wybodus arno.

⁶ https://www.hesa.ac.uk/index.php?option=com_content&view=article&id=2964&Itemid=233
(Canllawiau HESA ar ymchwil cydweithredol)

Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad

Mae'r dangosydd yn mesur nifer y mentrau sydd wedi datblygu neu gyflwyno cynnyrch 'newydd i'r farchnad' mewn unrhyw un o'u marchnadoedd. Mae hyn yn cynnwys arloesedd proses cyn belled â bod y broses yn cyfrannu at ddatblygiad y cynnyrch. Ni chynhwysir *prosiectau* nad oes ganddynt y nod o ddatblygu cynnyrch mewn gwirionedd. Os yw menter yn cyflwyno nifer o gynhyrchion neu'n cael cymorth ar gyfer nifer o brosiectau, mae'n parhau i gael ei gyfri fel un fenter. Mewn achos prosiectau cydweithredu, mae'r dangosydd yn mesur pob menter sy'n cymryd rhan.

Mae cynnyrch yn newydd i'r farchnad os nad oes unrhyw gynnyrch arall ar gael ar y farchnad sy'n cynnig yr un ymarferoldeb, neu fod y dechnoleg a ddefnyddir gan y cynnyrch newydd yn wahanol yn y bôn i dechnoleg cynhyrchion sydd eisoes yn bodoli. Gall cynhyrchion fod yn gyffyrddadwy neu'n anghyffyrddadwy (gan gynnwys gwasanaethau a phrosesau).

Os yw cynnyrch yn newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, dylai'r fenter hefyd gael ei chyfri fel menter a gynorthwyir sy'n cyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad.

Dylai mentrau sy'n cael eu cynnwys yn y dangosydd hwn hefyd gael eu cofnodi fel rhai sy'n cael grantiau/cymorth ariannol/cymorth nad yw'n ariannol.

Er bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau arloesol traddodiadol yn arwain at gynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, mae'n bosibl bod y cynnyrch yn newydd i'r farchnad ond heb fod yn newydd i'r cwmni, e.e. addasu cynnyrch sy'n bodoli eisoes i farchnad newydd heb newid ei ymarferoldeb.

Uned:

Mentrau

Gofynion Data:

Dylai'r data ar bob menter a gynorthwyir gael eu cyflwyno pan fyddant wedi'u cynnwys ar gais. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd y cais yn cael ei wneud. Darperir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Llinell sylfaen o dystiolaeth ar ddechrau'r cymorth er mwyn nodi gweithgarwch presennol y fenter a'r cynhyrchion a'r prosesau a ddilynir.

Tystiolaeth fanwl wedi'i chofnodi o ba newidiadau sydd wedi datblygu i'r prosesau a/neu'r cynhyrchion o ganlyniad i gymorth a gweithgareddau'r prosiect a sut maen nhw'n gymwys fel eitemau 'newydd i'r farchnad'.

Tystiolaeth fod y cynnyrch wedi'i gynhyrchu a'i farchnata a'i fod ar gael i'w brynu.

Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch newydd i gwmni

Mae'r dangosydd yn mesur nifer y mentrau sydd wedi datblygu neu gyflwyno cynnyrch '*newydd i gwmni*'. Mae hyn yn cynnwys arloesedd proses cyn belled â bod y broses yn cyfrannu at ddatblygiad y cynnyrch. Ni chynhwysir prosiectau nad oes ganddynt y nod o ddatblygu cynnyrch mewn gwirionedd. Os yw menter yn cyflwyno nifer o gynhyrchion neu'n cael cymorth ar gyfer nifer o brosiectau, mae'n parhau i gael ei gyfri fel un fenter. Mewn achos prosiectau cydweithredu, mae'r dangosydd yn mesur yr holl fentrau y mae'r cynnyrch yn newydd iddynt.

Mae *cynnyrch* yn newydd i gwmni os na wnaeth y fenter gynhyrchu cynnyrch â'r un ymarferoldeb neu fod y dechnoleg gynhyrchu'n wahanol yn y bôn i dechnoleg cynhyrchion sydd eisoes yn bodoli. Gall cynhyrchion fod yn gyffyrddadwy neu'n anghyffyrddadwy (gan gynnwys gwasanaethau a phrosesau).

Os yw cynnyrch yn newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, dylai'r fenter gael ei chyfri yn y ddau ddangosydd perthnasol.

Dylai mentrau sy'n cael eu cynnwys yn y dangosydd hwn hefyd gael eu cofnodi fel rhai sy'n cael grantiau/cymorth ariannol/cymorth nad yw'n ariannol a mentrau newydd.

Er bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau arloesol traddodiadol yn arwain at gynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, mae'n bosibl bod y cynnyrch yn newydd i'r cwmni ond heb fod yn newydd i'r farchnad, e.e. trosglwyddiadau technoleg penodol.

Uned:

Mentrau

Gofynion data:

Dylai'r data ar bob menter a gynorthwyir gael eu cyflwyno pan fyddant wedi'u cynnwys ar gais. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd y cais yn cael ei wneud. Darperir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Llinell sylfaen o dystiolaeth ddiagnostig ar ddechrau'r cymorth er mwyn nodi gweithgarwch presennol y fenter a'r cynhyrchion a'r prosesau a ddilynnir. Tystiolaeth fanwl wedi'i chofnodi o ba newidiadau sydd wedi datblygu i'r prosesau a/neu'r cynhyrchion o ganlyniad i'r cymorth a gweithgareddau'r prosiect.

Nifer y mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol

Nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliad ymchwil mewn prosiect Ymchwil a Datblygu.

Rhaid i'r prosiect ymchwil fod yn drawsffiniol, yn drawswladol neu'n rhyngranbarthol. Os oes gan fenter sy'n cymryd rhan adrannau sy'n gweithredu mewn gwahanol leoedd, dylid ystyried lleoliad yr adran(nau) sy'n cymryd rhan ac ystyried y prosiect fel un trawsffiniol.

Mae o leiaf un fenter ac un *sefydliad ymchwil* yn cymryd rhan yn y prosiect. Dylid cofnodi pob sefydliad ymchwil a phob menter ar wahân yn erbyn y dangosydd hwn. Gall un neu ragor o'r partïon cydweithredu (sefydliad ymchwil neu fenter) gael cymorth, ond rhaid ei fod yn amodol ar gydweithredu. Gall y cydweithredu rhwng y partïon fod yn newydd neu'n gydweithrediad a oedd yn bodoli eisoes, ond ni all y prosiect fod wedi bodoli cyn cael arian gan yr ERDF. Dylai'r cydweithrediad bara o leiaf dros oes y prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd.

Dim ond unwaith yn ystod oes prosiect y gellir cyfri mentrau.

Os bydd mwy nag un fenter yn cydweithredu gyda'r endid ymchwil, gellir cyfri pob menter ar wahân.

Uned:

Mentrau

Gofynion Data:

Dylai'r data ar bob menter gael eu cyflwyno pan fyddant wedi'u cynnwys ar gais. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd y cais yn cael ei wneud. Darperir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylai'r allbwn hwn gael ei gofnodi ar ddechrau'r cydweithredu.

Dylid cynnwys tystiolaeth yn y Cynllun Busnes.

Dylai'r dystiolaeth allu nodi cyd-destun uniongyrchol y cydweithredu arfaethedig rhwng y fenter a'r sefydliad ymchwil, megis diben y cydweithredu, y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal a sut y disgwylir i'r rhain gyfrannu at yr allbynnau disgwylidiedig.

Yn ogystal â'r data ar y fenter, dylid darparu manylion y sefydliad ymchwil gyda gwybodaeth a manylion yr arbenigedd penodol a gynigir o ran y gweithgareddau cydweithredu.

Dylai hwn gael ei gefnogi gan lythyr sy'n cytuno i gydweithredu neu femorandwm o ddealltwriaeth rhwng y partïon, sy'n nodi cyfraniad y fenter a'r sefydliad

ymchwil. Dylid darparu manylion y gweithgareddau cydweithredu sydd wedi'u cynnal a sut maen nhw'n berthnasol i'r allbynnau a'r canlyniadau ar ôl cwblhau'r prosiect.

Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol

Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol.

Rhaid i'r prosiect ymchwil fod yn drawsffiniol, yn drawswladol neu'n rhyngranbarthol. Os oes gan sefydliad ymchwil adrannau sy'n gweithredu mewn gwahanol leoedd, dylid ystyried lleoliad yr adran(nau) sy'n cymryd rhan ac ystyried y prosiect fel un trawsffiniol.

Gall y cydweithredu rhwng y partïon fod yn newydd neu'n gydweithrediad a oedd yn bodoli eisoes, ond ni all y prosiect fod wedi bodoli cyn cael arian gan yr ERDF. Dylai'r cydweithrediad bara o leiaf dros oes y prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylai'r allbwn hwn gael ei gofnodi ar ddechrau'r cydweithredu.

Dylid cynnwys dystiolaeth yn y Cynllun Busnes.

Dylai'r dystiolaeth allu nodi cyd-destun uniongyrchol y cydweithrediad arfaethedig rhwng y fenter a'r sefydliad ymchwil, megis diben y cydweithredu, y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal a sut y disgwylir i'r rhain gyfrannu at yr allbynnau disgwylidiedig.

Dylid darparu manylion y sefydliad ymchwil gyda gwybodaeth am yr arbenigedd penodol a gynigir o ran y gweithgareddau cydweithredu.

Dylai hwn gael ei gefnogi gan lythyr sy'n cytuno i gydweithredu neu femorandwm o ddealltwriaeth rhwng y partïon, sy'n nodi cyfraniad y fenter a'r sefydliad ymchwil.

Dylid darparu manylion y gweithgareddau cydweithredu sydd wedi'u cynnal a sut maen nhw'n berthnasol i'r allbynnau a'r canlyniadau ar ôl cwblhau'r prosiect.

Rhwydweithiau arloesedd trawsffiniol newydd neu rai a gyfoethogwyd

Nifer y rhwydweithiau arloesedd trawsffiniol newydd neu rai a gyfoethogwyd a ddaeth yn sgil ymyrraeth ERDF.

Mae rhwydweithiau arloesedd yn ymwneud â phartneriaid lluosog sy'n cyfnewid hysbysrwydd, gwybodaeth ac adnoddau i alluogi arloesedd. Gallai'r rhwydwaith gynnwys creu llwyfan i sefydliadau addysg uwch, y trydydd sector, busnesau ac asiantaethau o'r sector cyhoeddus gydweithio a chydgysylltu eu gweithgareddau yn drawsffiniol er mwyn diwallu anghenion maes y Rhaglen.

Ni ddylai rhwydweithiau newydd fod wedi bodoli cyn bodolaeth yr ymyrraeth ERDF.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Manylion y rhwydweithiau, gan gynnwys enwau'r cyfranogwyr a chofnodion o'r mathau o wybodaeth a rannwyd.

Unrhyw gytundeb ffurfiol a luniwyd i hwyluso'r rhwydwaith.

I rwydweithiau sydd wedi'u cyfoethogi, manylion yr hyn sydd wedi'i ychwanegu at y rhwydwaith gan ymyrraeth ERDF.

Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd

Prosiect a gynlluniwyd i'w dreialu er mwyn profi dull gweithio penodol ar grŵp cyfyngedig o fuddiolwyr dros gyfnod cyfyngedig o amser; ei nod yw denu gweithgarwch yn y maes/disgyblaeth neu sector yn y dyfodol⁷.

Uned:

Cynlluniau peilot a gyflawnwyd

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylid darparu'r data ar ôl cwblhau'r prosiect.

Llinell sylfaen o dystiolaeth – prawf o gysyniad.

Cytundeb cydweithredu

Tystiolaeth o broses caffael, manyleb dechnegol ar gyfer capasiti'r gosodiad.

Tystiolaeth fod y gosodiad wedi'i gwblhau a'i fod yn gweithio.

Gwerthuso

⁷ ERDF 2007-13 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Diffiniadau o Allbynnau

Echelin Flaenoriaeth 2 – Addasu Môr yr Iwerydd a Chymunedau Arfordirol i'r Newid yn yr Hinsawdd

Amcan Thematig 5

Hyrwyddo'r gwaith o addasu i'r newid yn yr hinsawdd, atal risg a rheoli'r newid yn yr hinsawdd

Blaenoriaeth Fuddsoddi 5a –

Cefnogi'r buddsoddiad ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys dulliau gwaith sy'n seiliedig ar ecosystem. Bydd hyn yn cynnwys ychydig o weithgarwch sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy.

Amcan Penodol 2

Cynyddu gallu a gwybodaeth am y gwaith o addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer Môr yr Iwerydd a chymunedau arfordirol.

Dangosydd Canlyniadau

Lefel yr wybodaeth am addasu i'r newid yn yr hinsawdd ymhlith cymunedau a busnesau

Allbynnau

| Dangosydd | Uned Mesur | Gwerth targed (2023) |
|---|----------------------------|----------------------|
| Buddsoddiad cynhyrchiol: Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu rynggranbarthol | Sefydliadau | 10 |
| Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd | Prosiectau | 2 |
| Nifer y mentrau newydd i godi ymwybyddiaeth sydd wedi'u targedu at gymunedau arfordirol | Mentrau codi ymwybyddiaeth | 60 |
| Nifer y sefydliadau sy'n cydweithredu i wella'r amgylchedd morol ac arfordirol | Sefydliadau | 24 |

Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol

Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol.

Rhaid i'r prosiect ymchwil fod yn drawsffiniol, yn drawswladol neu'n rhynggranbarthol. Os oes gan sefydliad ymchwil adrannau sy'n gweithredu mewn gwahanol leoedd, dylid ystyried lleoliad yr adran(nau) sy'n cymryd rhan ac ystyried y prosiect fel un trawsffiniol.

Gall y gwaith cydweithredol rhwng y partïon fod yn newydd neu'n gydweithrediad a oedd yn bodoli eisoes, ond ni all y prosiect fod mewn bodolaeth cyn cael arian o'r ERDF. Dylai'r cydweithrediad bara o leiaf dros oes y prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylai'r allbwn hwn gael ei gofnodi ar ddechrau'r cydweithredu.

Dylid cynnwys dystiolaeth yn y Cynllun Busnes a chytuno arni.

Dylai'r dystiolaeth allu nodi cyd-destun uniongyrchol y gwaith cydweithredol arfaethedig rhwng y fenter a'r sefydliad ymchwil, megis diben y cydweithredu, y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal a sut y disgwylir i'r rhain gyfrannu at yr allbynnau disgwyliedig.

Dylid darparu manylion y sefydliad ymchwil gyda gwybodaeth am yr arbenigedd penodol a gynigir o ran y gweithgareddau cydweithredol.

Dylai hwn gael ei gefnogi gan lythyr sy'n cytuno i gydweithredu neu femorandwm o ddealltwriaeth rhwng y partïon, sy'n nodi cyfraniad y fenter a'r sefydliad ymchwil.

Dylid darparu manylion y gweithgareddau cydweithredol sydd wedi'u cynnal a sut maen nhw'n berthnasol i'r allbynnau a'r canlyniadau ar ôl cwblhau'r prosiect.

Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd

Prosiect a gynlluniwyd i'w dreialu i brofi dull gweithio penodol ar grŵp cyfyngedig o fuddiolwyr dros gyfnod cyfyngedig o amser; ei nod yw denu gweithgarwch yn y maes/disgyblaeth neu sector yn y dyfodol⁸.

Uned:

Cynlluniau peilot a gyflawnwyd

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylid darparu'r data ar ôl cwblhau'r prosiect.

Llinell sylfaen o dystiolaeth – prawf o gysyniad.

Cytundeb cydweithredu

Tystiolaeth o broses caffael, manyleb dechnegol ar gyfer capasiti'r gosodiad.

Tystiolaeth fod y gosodiad wedi'i gwblhau a'i fod yn gweithio.

Gwerthuso

⁸ ERDF 2007-13 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Diffiniadau o Allbynnau

f 1.1

Nifer y mentrau newydd i godi ymwybyddiaeth sydd wedi'u targedu at gymunedau arfordirol

Nifer y mentrau newydd i godi ymwybyddiaeth sydd wedi'u targedu at gymunedau arfordirol a ariennir trwy ymyrraeth ERDF.

Dylai'r mentrau fynd i'r afael â'r heriau a amlinellwyd yn adran y Strategaeth trwy ledaenu'r wybodaeth honno i'r gymuned wyddonol a'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Manylion y fenter a'r derbynyddion targed.

Nifer y sefydliadau sy'n cydweithredu i wella'r amgylchedd morol ac arfordirol

Nifer y sefydliadau sy'n cydweithredu ar brosiect sy'n gwella'r amgylchedd morol ac arfordirol.

Gall y cydweithredu rhwng y partïon fod yn newydd neu'n gydweithrediad a oedd yn bodoli eisoes, ond ni all y prosiect fod wedi bodoli cyn cael arian o'r ERDF. Dylai'r cydweithrediad bara o leiaf dros oes y prosiect.

Unwaith yn unig y caiff sefydliadau eu cyfri yn ystod oes prosiect.

Uned:

Sefydliadau

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylid cofnodi'r allbwn hwn ar ddechrau'r cydweithredu.

Dylid cynnwys dystiolaeth yn y Cynllun Busnes.

Dylai'r dystiolaeth allu nodi cyd-destun uniongyrchol y sefydliadau cydweithredu arfaethedig, megis diben y cydweithredu, y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal a sut y disgwylir i'r rhain gyfrannu at y strategaeth a nodwyd yn y Rhaglen Weithredol.

Echelin Flaenoriaeth 3 – Treftadaeth ac Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

Amcan Thematig 6

Diogelu'r amgylchedd a hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau.

Blaenoriaeth Fuddsoddi 6c

Gwarchod, diogelu, hyrwyddo a datblygu treftadaeth naturiol a diwylliannol.

Amcan Penodol 3

Mynd ati mewn modd cynaliadwy i wireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol i gynyddu nifer yr ymwelwyr i gymunedau arfordirol ym maes y Rhaglen.

Dangosydd Canlyniadau

Cyfanswm nifer yr ymwelwyr tramor â chymunedau arfordirol maes y Rhaglen.

Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned Mesur | Gwerth targed (2023) |
|--|--------------------------------|----------------------|
| Mwy o swyddi mewn mentrau a gynorthwyr | Staff cyfwerth ag amser llawn | 10 |
| Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd | Prosiectau peilot a gyflawnwyd | 2 |
| Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy'n hyrwyddo asedau diwylliannol, naturiol neu dreftadol | Rhwydweithiau trawsffiniol | 12 |
| Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn cydweithrediad trawsffiniol sy'n ymwneud â thwristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadol | Cymunedau | 20 |

Mwy o swyddi mewn mentrau a gynorthwyr

Nifer y swyddi newydd gros mewn mentrau a gynorthwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE).

Mae'r FTE yn seiliedig ar oriau dan contract.

Dangosydd 'cyn ac ar ôl' yw hwn yn ei hanfod sy'n cipio'r rhan o'r cynnydd o ran cyflogaeth sydd o ganlyniad uniongyrchol i gwblhau prosiect (ni chaiff gweithwyr a gyflogwyd i weithredu'r prosiect eu cyfri). Rhaid bod rhywun mewn swydd (ni chaiff swyddi gwag eu cyfri) a bod cynnydd yng nghyfanswm nifer y swyddi yn y fenter. Os na fydd cyfanswm y swyddi yn y fenter yn cynyddu, y gwerth yw sero - ystyrir hyn yn adliniad yn hytrach na chynnydd. Ni chaiff swyddi a ddiogelwyd ac ati eu cynnwys.

Gros: Heb gyfri o ble y daw deiliad y swydd cyn belled â'i fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynyddu cyfanswm y swyddi yn y sefydliad. Dylid defnyddio'r dangosydd hwn pan fo'n debygol bod y cynnydd wedi dod yn sgil y cymorth.

Parhad: Disgwylir i swyddi fod yn barhaol, h.y. para am gyfnod rhesymol o hir, yn dibynnu ar nodweddion diwydiannol-technolegol; dylai swyddi tymhorol fod yn gylchol.⁹ Ni chaiff contractau dim oriau eu cynnwys.

Caiff ffigurau mentrau a aeth i'r wal eu cofnodi fel cynnydd sero mewn swyddi.

Amseru: Caiff data eu casglu cyn i'r prosiect ddechrau a hyd at 12 mis ar ôl ymyrraeth.

Uned:

Swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) (oriau dan contract sy'n seiliedig ar wythnos 30 awr)

Gofynion Data:

Rhaid cofnodi rhywedd deiliad cyntaf y swydd.

Bandiau cyflog (0-€18,999; €19,000 – €23,999; €24,000 - €28,999; €29,000 - €38,999; €39,000 ac uwch.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Gellir rhoi tystiolaeth o gynnydd mewn cyflogaeth drwy hunan-ddatganiad. ***Dylid atodi fformat y ffurflen hunan-ddatgan i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso***, ond dylid cynnwys manylion y swyddi sydd wedi'u creu, bod y cynnydd wedi dod yn sgil ymyrraeth ERDF, a dylid cynnwys y band cyflog a rhywedd y deiliad swydd cyntaf. Dylai'r datganiad gael ei lofnodi gan gyfarwyddwr neu uwch-reolwr a dylid nodi ei swydd

⁹ Enghraifft fyddai ymchwilydd ôl-ddoethuriaeth a fyddai'n gweithio am isafswm cyfnod o 2 flynedd

Nifer y prosiectau peilot a gyflawnwyd

Prosiect a gynlluniwyd i'w dreialu i brofi dull gweithio penodol ar grŵp cyfyngedig o fuddiolwyr dros gyfnod cyfyngedig o amser; ei nod yw denu gweithgarwch yn y maes/disgyblaeth neu sector yn y dyfodol¹⁰.

Uned:

Cynlluniau peilot a gyflawnwyd

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylid darparu'r data ar ôl cwblhau'r prosiect.

Llinell sylfaen o dystiolaeth – prawf o gysyniad.

Cytundeb cydweithredu

Tystiolaeth o broses caffael, manyleb dechnegol ar gyfer capasiti'r gosodiad.

Tystiolaeth fod y gosodiad wedi'i gwblhau a'i fod yn gweithio.

Gwerthuso

¹⁰ ERDF 2007-13 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Diffiniadau o Allbynnau

Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy'n hyrwyddo asedau diwylliannol, naturiol neu dreftadol

Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy'n hyrwyddo asedau diwylliannol, naturiol neu dreftadol a ddaeth o ganlyniad i ymyrraeth ERDF.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn diffinio¹¹ asedau diwylliannol, naturiol neu dreftadol fel:

'Brithwaith cyfoethog ac amrywiol o fynegiannau diwylliannol a chreadigol, wedi'i etifeddu o'r cenedlaethau a fu a'i lunio o safleoedd naturiol, adeiledig ac archeolegol yn ogystal ag amgueddfeydd, cofadeiladau, gwaith celf a dinasoedd hanesyddol. Mae'n cynnwys gwaith llenyddol, cerddorol a chlyweledol, a gwybodaeth, arferion a thraddodiadau dinasyddion Ewrop.'

Mae rhwydweithiau'n cynnwys partneriaid lluosog sy'n cyfnewid hysbysrwydd, gwybodaeth, ac adnoddau. Gallai'r rhwydwaith gynnwys creu llwyfan i sefydliadau addysg uwch, y trydydd sector, busnesau ac asiantaethau o'r sector cyhoeddus gydweithio a chydgyssylltu eu gweithgareddau yn drawsffiniol er mwyn diwallu anghenion maes y Rhaglen.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Manylion y rhwydweithiau, gan gynnwys enwau'r cyfranogwyr a chofnodion o'r mathau o wybodaeth a rannwyd.

Unrhyw gytundeb ffurfiol a luniwyd i hwyluso'r rhwydwaith.

I rwydweithiau sydd wedi'u cyfoethogi, manylion yr hyn sydd wedi'i ychwanegu at y rhwydwaith gan ymyrraeth ERDF.

¹¹ http://ec.europa.eu/culture/policy/culture-policies/cultural-heritage_en.htm

Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn gwaith cydweithredol trawsffiniol sy'n ymwneud â thwristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadol

Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn gwaith cydweithredol trawsffiniol sy'n ymwneud â phrosiect twristiaeth diwylliannol, naturiol neu dreftadol.

Rhaid i'r prosiect ymchwil fod yn drawsffiniol, yn drawswladol neu'n rhynggranbarthol.

Gall y cydweithrediad rhwng y partïon fod yn newydd neu'n gydweithrediad sy'n bodoli eisoes, ond ni all y prosiect fod mewn bodolaeth cyn cael arian gan yr ERDF. Dylai'r cydweithrediad bara o leiaf dros oes y prosiect.

Tystiolaeth Awgrymedig:

Dylai'r allbwn hwn gael ei gofnodi ar ddechrau'r cydweithredu.

Dylid cynnwys tystiolaeth yn y Cynllun Busnes.

Dylai'r dystiolaeth allu nodi cyd-destun uniongyrchol y gwaith cydweithredol arfaethedig rhwng y fenter a'r sefydliad ymchwil, megis diben y cydweithredu, y gweithgareddau a fydd yn cael eu gwneud a sut y disgwylir i'r rhain gyfrannu at yr allbynnau disgwylidig.

Dylid darparu manylion y cymunedau.

Atodiad 1 – Cronfa Ddata Mentrau

Dylid casglu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob menter sy'n cael cymorth:

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------------------|------------------------------------|---------------------|---|
| Dynodydd | | | |
| | Cofnod dynodydd | Rhydd | Dynodydd unigryw yw hwn y byddwch chi, fel Gweithrediad, yn ei ddefnyddio i nodi Menter. Rhaid iddo fod yn unigryw i bob Menter yn eich Gweithrediad. |
| | Rhif TAW | Rhif / Amherthnasol | Amherthnasol os nad yw'r fenter wedi'i chofrestru at ddibenion TAW |
| | Rhif cwmni | Rhif / Amherthnasol | Amherthnasol os nad oes gan y fenter rif Cwmni |
| | Cyfeirnod Cynllun talu wrth ennill | Rhif / Amherthnasol | Amherthnasol os nad oes gan y fenter gyfeirnod Cynllun Talu wrth Ennill (PAYE) |
| Manylion cyswllt | | | |
| | Teitl y Cyswllt | Rhydd | Hwn yw'r unigolyn sy'n deall y cymorth a roddwyd i'r Fenter gan y Gweithrediad. |
| | Enw(au) cyntaf y cyswllt | Rhydd | |

f 1.1

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|------------------------------|---|--|
| | Cyfenw'r cyswllt | Rhydd | <p>Bydd rhaid i WEFO wneud gwaith ymchwil i asesu effeithiau parhaus y Cronfeydd Strwythurol. Mae'n bosibl y bydd angen i WEFO gysylltu â'r mentrau at ddibenion y gwaith ymchwil hwn.</p> <p>Cyfeiriad y Fenter a gynorthwyir fydd hwn fel arfer.</p> <p>Hwn yw Awdurdod Unedol y Fenter a gynorthwyir.</p> |
| | Teitl swydd y cyswllt | Rhydd | |
| | Enw'r Fenter | Rhydd | |
| | Cyfeiriad y Fenter 1 | Rhydd | |
| | Cyfeiriad y Fenter 2 | Rhydd | |
| | Tref/Dinas | Rhydd | |
| | Awdurdod Unedol/Sir y Fenter | Sir Gaerfyrddin; Ceredigion; Conwy; Sir Ddinbych; Sir y Fflint; Gwynedd; Ynys Môn; Sir Benfro; Powys; Abertawe; | |

f 1.1

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|-------------|-----------------|--|----------------|
| | | Wrecsam; Carlow; Corc; Dinas Dilyn; DunLaoghaire/Rathdown; Fingal; Kerry; Kildare; Kilkenny; Meath; De Dilyn; Tiperrary; Waterford; Wexford; Wicklow Y tu allan i Gymru ac Iwerddon | |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|--------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------|---|
| | Cod post y fenter | XX###XX | At ddibenion cysylltu ac i gadarnhau'r lleoliad |
| | Iaith ddewisol ar gyfer cyfathrebu | Cymraeg; Saesneg | Bydd rhaid i WEFO wneud gwaith ymchwil i asesu effeithiau parhaus y Cronfeydd Strwythurol. Mae'n bosibl y bydd angen i WEFA gysylltu â'r mentrau at ddibenion y gwaith ymchwil hwn. |
| | Rhif ffôn | Rhif | Rhif gan gynnwys cod ardal |
| | Rhif ffôn arall | Rhif | Rhif arall |
| | Cyfeiriad e-bost | Rhydd | |
| | Ai cyfeiriad cartref yw hwn? | Ie; Na | Mae'r maes data hwn at ddibenion Diogelu Data. |
| Math o gwmni / graddfa'r cwmni | | | |
| | Dyddiad y gwerthiant masnachol cyntaf | dd/MM/yyyy; Amherthnasol | Nodwch y dyddiad. Os nad oes unrhyw werthiannau masnachol wedi'u gwneud eto, nodwch Amherthnasol. |
| | Menter gymdeithasol | Ydy; | Menter gymdeithasol yw menter â nodau cymdeithasol |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|-------------------|---|---|
| | | Nac ydy | yn bennaf sy'n ail-fuddsoddi'r rhan fwyaf o'i harian dros ben at y diben hwnnw yn y fenter neu yn y gymuned, yn hytrach na chael ei llywio gan yr angen i wneud cymaint o elw â phosibl i randdeiliaid a pherchnogion. |
| | BBaCh | Ydy; Nac ydy | A yw'r fenter yn cael ei hystyried yn Fusnes Bach a Chanolig? Gweler http://ec.europa.eu/enterprise/policies/sme/facts-figures-analysis/sme-definition/index_en.htm am ddiffiniad o BBaCh. |
| | Sector | Rhif (cod SIC pedwar rhif) | Dylid defnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol ar gyfer Gweithgareddau Economaidd y DU 2007 (SIC 2007) i ddarparu gwybodaeth lefel dosbarth pedwar rhif am y fenter. Mae rhagor o fanylion yn https://cy.ons.gov.uk/ |
| | Nifer y gweithwyr | 0-1; 2-9; 10-49; 50-249; neu 250+ | Defnyddiwch y bandiau a ddangosir yn y golofn maen prawf. |
| | Trosiant | < €10,000; | Defnyddiwch y bandiau a ddangosir yn y golofn maen |

f 1.1

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|-------------|-----------------------------------|---|---|
| | | €10,000 i €49,999; €50,000 i €99,999; €100,000 i €199,999; €200,000 i €499,999; €500,000 i €999,999; €1,000,000 i €1,999,999; €2,000,000 i €4,999,999; €5,000,000 i €9,999,999; €10,000,000 i €19,999,999; €20,000,000 i €49,999,999; neu €50,000,000 neu fwy | prawf. |
| Demograffig | | | |
| | Nifer y perchnogion | Rhif | Dylid darparu'r wybodaeth hon am gyfle cyfartal i berchnogion y mentrau a gynorthwyir. Os nad yw'r wybodaeth ar gael i'r perchnogion, dylid ei darparu ar |
| | Nifer y perchnogion sy'n ddyinion | Rhif | |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|--|------------|--|
| | Nifer y perchnogion sy'n fenywod | Rhif | gyfer cyfarwyddwyr neu uwch-reolwyr. |
| | Nifer y perchnogion sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | Rhif | <p>Dylid darparu'r wybodaeth hon am gyfle cyfartal i berchnogion y mentrau a gynorthwyr. Os nad yw'r wybodaeth ar gael i'r perchnogion, dylid ei darparu ar gyfer cyfarwyddwyr neu uwch-reolwyr.</p> <p>Nid yw cwestiynau ar darddiad ethnig yn ymwneud â chenedligrwydd, man geni na dinasyddiaeth. Maen nhw'n ymwneud â grwpiau ethnig eang.</p> <p>Mae grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cynnwys pobl a allai wynebu rhwystrau oherwydd eu tarddiad ethnig wrth geisio manteisio ar gyfleoedd yng Nghymru.</p> |
| | Nifer y perchnogion nad ydynt yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | Rhif | |
| | Nifer y perchnogion sy'n eu hystyried eu hunain fel pobl anabl | Rhif | <p>Dylid darparu'r wybodaeth hon am gyfle cyfartal i berchnogion y mentrau a gynorthwyr. Os nad yw'r wybodaeth ar gael i'r perchnogion, dylid ei darparu ar gyfer cyfarwyddwyr neu uwch-reolwyr.</p> <p>Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn cydnabod mai pobl â nam arnynt yw pobl anabl y mae eu hamgylchedd yn eu gwneud yn anabl.</p> <p>Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn pwysleisio'r gwahaniaeth pwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd', Mae'n</p> |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|---|------------|---|
| | | | <p>cydnabod bod pobl â namau arnynt yn anabl oherwydd y rhwystrau sy'n bodoli'n aml mewn cymdeithas. Yn syml, nid diffyg gallu i gerdded sy'n rhwystro'r unigolyn rhag mynd i mewn i adeilad heb gymorth, ond bodolaeth grisiau anhygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mewn geiriau eraill, rhywbeth a luniwyd yn gymdeithasol yw 'anabledd'.</p> <p>Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn gofyn i gymdeithas gael gwared â'r rhwystrau fel y gall pob unigolyn fod yn gyfartal.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth yn http://www.disabilitywales.org/cy/</p> <p>Dylid gofyn i berchnogion a ydynt yn ystyried eu hunain yn bobl anabl oherwydd y rhwystrau (agweddau, amgylcheddol a sefydliadol) sy'n eu hatal rhag cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd.</p> |
| | Nifer y perchnogion sy'n deall Cymraeg | Rhif | Dylid darparu'r wybodaeth hon am gyfle cyfartal i berchnogion y mentrau a gynorthwyr. Os nad yw'r wybodaeth ar gael i'r perchnogion, dylid ei darparu ar gyfer cyfarwyddwyr neu uwch-reolwyr. |
| | Nifer y perchnogion sy'n siarad Cymraeg | Rhif | |
| | Nifer y perchnogion | Rhif | |

f 1.1

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|---------------------------------------|--|------------|---|
| | sy'n darllen Cymraeg | | Dylid darparu'r wybodaeth hon am gyfle cyfartal i berchnogion y mentrau a gynorthwyr. Os nad yw'r wybodaeth ar gael i'r perchnogion, dylid ei darparu ar gyfer cyfarwyddwyr neu uwch-reolwyr. |
| | Nifer y perchnogion sy'n ysgrifennu yn Gymraeg | Rhif | |
| | Nifer y perchnogion rhwng 0-24 oed | Rhif | |
| | Nifer y perchnogion sydd rhwng 25 a 44 oed | Rhif | |
| | Nifer y perchnogion sydd rhwng 45 a 64 oed | Rhif | |
| | Nifer y perchnogion sydd rhwng 65 a 74 oed | Rhif | |
| | Nifer y perchnogion sydd dros 75 oed | Rhif | |
| Gweinyddu / dangosyddion gweithgarwch | | | |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|-------------------------|------------------------------|--|
| | Dyddiad cael y cymorth | dd/MM/bbbb | Dylai hwn fod y dyddiad y cafodd y fenter gymorth am y tro cyntaf. |
| | Math o gymorth a gafwyd | Cymorth heb fod yn ariannol; | <p><i>Cymorth heb fod yn ariannol</i></p> <p>Cymorth nad yw'n ymwneud â throsglwyddo arian yn uniongyrchol.</p> <p>Dylid cyfrifo maint y cymorth yn gronnol. Mae'r cymorth yn cynnwys gwaith cynghori yn unig ac nid yw'n cynnwys amser teithio. Lleiafswm o 1 diwrnod (6 awr o weithgarwch) a ddarparwyd trwy ddiagnosteg busnes neu gyfwerth. NEU 2 ddiwrnod (12 awr) o gymorth ymgynghori gweithredol.</p> <p>Dim ond unwaith yn ystod oes gweithrediad y gellir ystyried menter fel un sy'n cael cymorth heb fod yn ariannol.</p> <p>Cymorth ariannol uniongyrchol na ellir ei ad-dalu sy'n amodol ar gwblhau'r prosiect yn unig. (grantiau).</p> <p>Dylai gwerth y grant fod yn o leiaf €1,000.</p> <p>Mae menter sy'n cael grantiau fwy nag unwaith yn ystod prosiect yn parhau i fod yn un fenter sy'n cael grantiau dros oes prosiect.</p> <p>Gall menter a gofnodir fel un sy'n cael grantiau hefyd</p> |

f 1.1

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|-------------------------|---|------------|--|
| | | | gael ei chofnodi fel un sy'n cael cymorth ariannol ar wahân i grantiau neu sy'n cael cymorth heb fod yn ariannol os yw'n cael cymorth perthnasol trwy wahanol weithgareddau. |
| | Swm y cymorth ariannol– grant | € | Dylid nodi'r swm mewn punnoedd. Gellir gweld diffiniad o "Gymorth ariannol – grant" uchod. |
| | Swm y cymorth ariannol– heblaw am grant | € | Dylid nodi'r swm mewn punnoedd. Gellir gweld diffiniad o "Gymorth ariannol – heblaw am grant" uchod. |
| | Amcan Penodol | SO#.# | Hwn yw Amcan Penodol Gweithrediad/prosiect y Cronfeydd Strwythurol. |
| | Buddiolwr | Cell rydd | Enw Parti Busnes y sefydliad sy'n gyfrifol am reoli/darparu'r ymyrraeth. |
| Allbynnau / Canlyniadau | | | |
| | Nifer y prosiectau Ymchwil a Datblygu cydweithredol y | Rhif | Faint o brosiectau Ymchwil a Datblygu cydweithredol y mae'r Fenter wedi cymryd rhan ynddynt? Prosiect Ymchwil a Datblygu cydweithredol yw pan fydd o leiaf un |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|--|--------------|--|
| | cymerwyd rhan ynddynt | | fenter ac un sefydliad ymchwil yn cymryd rhan yn y prosiect. Gall un neu fwy o'r partion cydweithredol (sefydliad ymchwil neu fenter) gael y cymorth, ond rhaid iddo fod yn amodol ar gydweithredu. Gall y gwaith cydweithredol rhwng y partion fod yn newydd neu'n gydweithrediad a oedd yn bodoli eisoes, ond ni all y prosiect fod mewn bodolaeth cyn cael arian o'r ERDF. Dylai'r cydweithrediad bara o leiaf dros oes y prosiect. |
| | Wedi cyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni? | Do; Naddo | A yw'r Fenter wedi cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni? Mae cynnyrch yn newydd i gwmni os na wnaeth y fenter gynhyrchu cynnyrch â'r un ymarferoldeb neu fod y dechnoleg gynhyrchu'n wahanol yn y bôn i dechnoleg cynhyrchion sydd eisoes yn bodoli. Gall cynhyrchion fod yn gyffyrddadwy neu'n anghyffyrddadwy (gan gynnwys gwasanaethau a phrosesau). Os yw cynnyrch yn newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, dylai'r fenter gael ei hystyried yn y ddau faes data. |
| | Wedi cyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad? | Do; Naddo | A yw'r Fenter wedi cyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad? Mae cynnyrch yn newydd i'r farchnad os nad oes unrhyw gynnyrch arall ar gael ar y farchnad sy'n cynnig yr un ymarferoldeb, neu fod y dechnoleg a ddefnyddir gan y cynnyrch newydd yn wahanol yn y bôn i dechnoleg cynhyrchion sydd eisoes yn bodoli. Gall |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|---|------------|---|
| | | | <p>cynhyrchion fod yn gyffyrddadwy neu'n anghyffyrddadwy (gan gynnwys gwasanaethau a phrosesau).</p> <p>Os yw cynnyrch yn newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, dylai'r fenter gael ei hystyried yn y ddau faes data.</p> |
| | Swm y buddsoddiad preifat sy'n gyfatebol i'r cymorth cyhoeddus– Grantiau | € | <p>Cyfanswm gwerth y cyfraniad preifat i BBaCh a gynorthwyir, mewn Ewros. Adroddwyd am y fenter a gynorthwyir dan fentrau sy'n cael grantiau.</p> <p>Ni ddylai'r gwerth a nodir gynnwys yr arian cyfatebol â grant yr ERDF a ddefnyddiwyd ar lefel weithredol.</p> <p>Gall buddsoddiad preifat gynnwys buddsoddiad mewn ffyrdd eraill os nodir hyn mewn cytundeb cydweithredol a'i fod yn archwiliadwy. Mae cyfraniadau mewn ffyrdd eraill yn cynnwys cyfraniadau i'r prosiect gan y sector preifat (er enghraifft amser staff, defnydd o gyfarpar ac adnoddau eraill, deunyddiau, darparu data ac ati) fel y disgrifiwyd yng nghytundeb y prosiect.</p> <p>Y buddsoddiad yw'r swm cronnus ar ddiwedd y prosiect.</p> |
| | Swm y buddsoddiad preifat sy'n gyfatebol i'r cymorth cyhoeddus – heb grantiau | € | <p>Cyfanswm gwerth y cyfraniad preifat i BBaCh a gynorthwyir, mewn Ewros. Adroddwyd am y fenter a gynorthwyir dan fentrau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau.</p> <p>Ni ddylai'r gwerth a nodir gynnwys yr arian cyfatebol â</p> |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|--|--------------|---|
| | | | <p>grant yr ERDF a ddefnyddiwyd ar lefel weithredol.</p> <p>Gall buddsoddiad preifat gynnwys buddsoddiad mewn ffyrdd eraill os nodir hyn mewn cytundeb cydweithredol a'u bod yn archwiliadwy. Mae cyfraniadau mewn ffyrdd eraill yn cynnwys cyfraniadau i'r prosiect gan y sector preifat (er enghraifft amser staff, defnydd o gyfarpar ac adnoddau eraill, deunyddiau, darparu data ac ati) fel y disgrifiwyd yng nghytundeb y prosiect.</p> <p>Y buddsoddiad yw'r swm cronnus ar ddiwedd y prosiect.</p> |
| | Nifer y Patentau a gofrestrwyd | Rhif | Nifer y patentau a gofrestrwyd yn ffurfiol gyda Swyddfa Patent y DU neu swyddfa gyfatebol dramor ar gyfer cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau gan y fenter a gynorthwyir. |
| | Yn addasu neu wella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth? | Do; Naddo | A yw'r fenter wedi mabwysiadu strategaeth sy'n amlinellu'r prif flaenoriaethau i'w gweithredu gan y cyflogwr a'i staff i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a herio gwahaniaethu ac yn monitro'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn? Rhaid bod y strategaethau cydraddoldeb a'r systemau monitro wedi'u mabwysiadu neu eu gwella o ganlyniad i'r cymorth a gafodd y fenter gan Gronfeydd Strwythurol. |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|--|--------------|--|
| | Yn addasu neu wella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | Do; Naddi | A yw'r fenter wedi mabwysiadu strategaeth sy'n amlinellu'r prif flaenoriaethau i'w gweithredu gan y cyflogwr a'i staff i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac wedi monitro'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn? Rhaid bod y strategaethau a'r systemau monitro ar gyfer datblygu cynaliadwy wedi'u mabwysiadu neu eu gwella o ganlyniad i'r cymorth a gafodd y fenter gan Gronfeydd Strwythurol. |
| | Cynnydd yn lefel yr allforio | € | <p>Gwerth gros busnes allforio newydd (nwyddau a gwasanaethau) y llwyddodd y mentrau i'w gyflawni yn sgil ymyrraeth gan Gronfeydd Strwythurol, mewn Ewros. Gall y rhain fod yn fusnesau untro neu'n fusnes rheolaidd. Dylid sgorio buddion parhaus unwaith fel ffigur blynyddol sy'n seiliedig ar berfformiad cyfredol.</p> <p>Dylid cofnodi'r ffigur blynyddol o fewn blwyddyn i'r ymyrraeth.</p> <p>Os bydd prosiect yn cael ei gynorthwyo neu ei gynorthwyo'n ariannol fwy nag unwaith, dylid cyfrifo'r cynnydd untro neu flynyddol yn lefel yr allforio mewn modd cronus, os yw'n fusnes ychwanegol.</p> <p>Enghraifft o werth busnes allforio newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Archeb untro a ddaeth i law gan gwsmer y tu allan |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|-----------------------|--------------|---|
| | | | <p>i'r DU, gyda'r gwerth wedi'i nodi mewn €;</p> <ul style="list-style-type: none"> - Contract yn ôl y gofyn / tymor a lofnodwyd gyda chwsmer y tu allan i'r DU, gwerth ymrwymiad blwyddyn 1 wedi'i nodi mewn €. <p>Allforio nwyddau: nwyddau sy'n gadael tiriogaeth ystadegol y DU.</p> <p>Allforio gwasanaethau: gwasanaethau lle mae'r cwsmer y tu allan i diriogaethau ystadegol y DU ac Iwerddon (CE, 2014)</p> |
| | Menter wedi'i chreu | Do; Naddo | <p>A gafodd y fenter ei chreu ar ôl cael cyngor neu gymorth gan yr ERDF neu gyfleuster a ariannwyd gan yr ERDF?</p> <p>Ni ddylai'r fenter fod wedi bodoli cyn gweithgarwch y Gronfa Strwythurol a dylai fodoli dros gyfnod y prosiect.</p> <p>Ni fydd menter yn mynd yn fenter newydd os mai dim ond ei ffurf gyfreithiol sy'n newid.</p> |
| | Dyddiad creu'r fenter | dd/mm/bbbb | I fentrau newydd yn unig. |

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|--|------------|---|
| | Cynnydd o ran swyddi mewn mentrau a gynorthwyr | Rhif | <p>Nifer y swyddi newydd gros mewn mentrau a gynorthwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE).</p> <p>Dangosydd 'cyn ac ar ôl' yw hwn yn ei hanfod sy'n cipio'r rhan o'r cynnydd o ran cyflogaeth o ganlyniad uniongyrchol i gwblhau prosiect (ni chaiff gweithwyr a gyflogwyd i weithredu'r prosiect eu cyfri). Rhaid llenwi'r swyddi (ni chaiff swyddi gwag eu cyfri) a chael cynnydd yng nghyfanswm nifer y swyddi yn y fenter. Os na fydd cyfanswm y swyddi yn y fenter yn cynyddu, y gwerth yw sero - ystyrir hyn yn adliniad yn hytrach na chynnydd. Ni chaiff swyddi a ddiogelwyd ac ati eu cynnwys.</p> <p>Gros: Heb gyfri o ble y daw deiliad y swydd cyn belled â'i fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynyddu cyfanswm y swyddi yn y sefydliad. Dylid defnyddio'r dangosydd hwn pan fo'n debygol bod y cynnydd wedi dod yn sgil y cymorth.</p> <p>Parhad: Disgwylir i swyddi fod yn barhaol, h.y. para am gyfnod rhesymol o hir, yn dibynnu ar nodweddion diwydiannol-technolegol; dylai swyddi tymhorol fod yn gylchol. Ni chaiff contractau dim oriau eu cynnwys.</p> <p>Caiff ffigurau mentrau a aeth i'r wal eu cofnodi fel cynnydd sero mewn swyddi.</p> <p>Amseru: Caiff data eu casglu cyn i'r prosiect ddechrau a</p> |

f 1.1

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|---|-------------|---|
| | | | <p>hyd at 12 mis ar ôl ymyrraeth.</p> <p>Cyfeiriwch at y diffiniad o “Mwy o Swyddi mewn Mentrau a Gynorthwyir” yn y ddogfen hon.</p> |
| | <p>Cynnydd o ran swyddi mewn mentrau a gynorthwyir – Nifer lle cyflogwyd Dyn i'r swydd gyntaf</p> | <p>Rhif</p> | <p>Cyfeiriwch at y diffiniad o “Mwy o Swyddi mewn Mentrau a Gynorthwyir” uchod.</p> <p>Mae hwn yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn yr uchod.</p> |
| | <p>Cynnydd o ran swyddi mewn mentrau a gynorthwyir – Nifer lle cyflogwyd Benyw i'r swydd gyntaf</p> | <p>Rhif</p> | <p>Cyfeiriwch at y diffiniad o “Mwy o Swyddi mewn Mentrau a Gynorthwyir” uchod.</p> <p>Mae hwn yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn yr uchod.</p> |

f 1.1

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|---|------------|---------|
| | Cynnydd o ran swyddi mewn mentrau a gynorthwyr – Nifer yn y band cyflog - €14,999 ac is | Rhif | |
| | Cynnydd o ran swyddi mewn mentrau a gynorthwyr – Nifer yn y band cyflog - €15,000-€19,999 | Rhif | |
| | Cynnydd o ran swyddi mewn mentrau a gynorthwyr – Nifer yn y band cyflog - €20,000-€24,999 | Rhif | |

f 1.1

| Grŵp | Categori | Maen prawf | Canllaw |
|------|---|------------|---------|
| | Cynnydd o ran swyddi mewn mentrau a gynorthwyr – Nifer yn y band cyflog - €25,000-€34,999 | Rhif | |
| | Cynnydd o ran swyddi mewn mentrau a gynorthwyr – Nifer yn y band cyflog - €35,000 ac uwch | Rhif | |

Rheoli Fersiwn

| | |
|---------------|--|
| Tudalen 8 | Tystiolaeth awgrymedig wedi'i haddasu ar gyfer statws BBaCh |
| Tudalen 9 | Tystiolaeth awgrymedig wedi'i haddasu. Datganiad gan y fenter ei bod bellach yn dderbyniol cael tystiolaeth o 'mwy o swyddi mewn mentrau a gynorthwyr' |
| Tudalen 10 | Diffiniad o 'Nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr' wedi'i alinio â Rhaglenni prif ffrwd yr ERDF. |
| Tudalen 12 | Diffiniad o 'buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus' wedi'i ddiwygio i gynnwys arian cyfatebol. |
| Tudalen 14 | Tystiolaeth wedi'i haddasu ar gyfer cynnyrch newydd i'r farchnad |
| Tudalen 25 | Tystiolaeth awgrymedig wedi'i haddasu. Datganiad gan y fenter ei bod bellach yn dderbyniol cael tystiolaeth o 'mwy o swyddi mewn mentrau a gynorthwyr' |